Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

The Voice of Community and Town Councils in Wales

Nodyn Datblygu Ymarfer 9

Cylch Perwyl ar gyfer Cyfarfodydd Cynghorau

| | |
|---|---|
| Dyddiad Cyhoeddi | Medi 2024 |
| Dyddiad Adolygu | Medi 2025 |

Mae'r wybodaeth hon yn eiddo i Un Llais Cymru trwy hawlfraint. Fe'i cynhyrchwyd ar gyfer aelodau Un Llais Cymru yn unig. Dylech gysylltu ag Un Llais Cymru os ydych yn bwriadu dosbarthu'r wybodaeth hon y tu allan i'ch Cyngor.

Lyn Cadwallader BA(Hons),PGDipHsg, DBA, PGDipLOPS, Chartered MCIH
Prif Weithredwr/Chief Executive www.onevoicewales.org.uk

**Nodyn Datblygu Ymarfer 9 Un Llais Cymru**

**Cylch Perwyl ar gyfer Cyfarfodydd Cynghorau**

**Canllaw syml i Gynghorau Cymuned a Thref**

| Cam | Pwrpas | Amserlen | Amserlen yn gryno |
|---|---|---|---|
| 1. **Beth ydyn ni'n ei olygu wrth gylch perwyl?** | | | |
| 1.1 Dylai fod gan unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor, gweithgor neu grŵp gorchwyl a gorffen ddealltwriaeth glir o natur y gwaith y bydd yn ei drafod a'i gyflawni.<br><br>1.2 Fel arfer caiff hynny ei amlinellu mewn dogfen sy'n disgrifio'r meysydd y gall y corff perthnasol ddisgwyl ymdrin â nhw. Yr enw arferol ar y canllawiau hyn yw cylch gorchwyl.<br><br>(Er rhwyddineb, mae'r ddogfen hon yn defnyddio'r term 'pwyllgor' i ddisgrifio'r math o gorff y cyfeirir ato yn 1.1 uchod.) | Mae cylch gorchwyl yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer gwaith y pwyllgor.<br><br>Maent yn cynnig eglurder, sicrwydd, a chyfeiriad ar gyfer y sawl sy'n aelodau o'r pwyllgor a'r sawl sy'n ei gefnogi. | Dylid trefnu cylch gorchwyl cyn i bob pwyllgor gychwyn ar ei flwyddyn waith, neu ar ddechrau prosiect ar gyfer unrhyw weithgor. | Gofalwch y caiff cylch gorchwyl ei gymeradwyo ar gyfer pob pwyllgor neu grŵp. Mae hyn yn galw am benderfyniad gan y Cyngor fel arfer. |

| Cam | Pwrpas | Amserlen | Amserlen yn gryno |
|---|---|---|---|
| **2. Beth ddylen nhw gynnwys? Rhai enghreifftiau ichi.** | | | |
| 2.1 Mae rhai rheolau am beth ddylai'r cylchoedd gorchwyl ei gynnwys. Dyma rai penawdau y gellid eu cynnwys:<br>• Pwrpas y pwyllgor<br>• Aelodaeth<br>• Trefniadau ar gyfer penderfyniadau, megis unrhyw reolau am gworwm<br>• Amlder cyfarfodydd<br>• Prosesau adrodd – i bwy mae'r pwyllgor yn adrodd?<br>• Dirprwyo. | Sefydlu fframwaith clir ar gyfer gwaith y pwyllgor. | Dd/B | Dd/B |
| 2.2 Gall Un Llais Cymru ddarparu mathau model o gylchoedd gorchwyl ar gyfer rhai mathau o bwyllgorau. Cysylltwch â Paul Egan pegan@unllaiscymru.cymru neu eich Swyddog Datblygu. Dyma hefyd rai enghreifftiau o rannau gwahanol o Gymru. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.3 Mae rhai Cynghorau, megis Cyngor Cymuned Pont-y-pŵl a Chyngor Tref Y Barri wedi cynhyrchu dogfen gynhwysfawr sy'n rhoi sylw i feysydd allweddol ar gyfer pob pwyllgor.<br><br>2.4 Mae rhai Cynghorau, megis Cyngor Tref Aberhonddu, wedi cynhyrchu crynodeb o feysydd cyfrifoldeb pob pwyllgor.<br><br>2.5 Mae llawer o Gynghorau eraill wedi sefydlu pwyllgorau sy'n gyfrifol am y prif feysydd cyfrifoldeb. Dyma enghraifft o Bwyllgor Cyllid o Radur a Threforgan.<br><br>2.6 Mae gan Gynghorau eraill Bwyllgor Apeliadau sy'n delio â staffio neu berfformiad, ond hefyd apeliadau wrth ystyried cwynion. Gall Un Llais Cymru ddarparu Model Gylch Gorchwyl y gellir ei addasu. | | | |

| **Cam** | **Pwrpas** | **Amserlen** | **Amserlen yn gryno** |
|---|---|---|---|

| 3. **Pa bwyllgorau ac ati ddylech chi eu cael?** | | | |
|---|---|---|---|
| 3.1 Unwaith eto, nid oes unrhyw reolau am hyn. Byddai'r rhan fwyaf o sylwedyddion yn disgwyl i Gyngor sefydlu pwyllgorau yn gyfrifol am feysydd fel cyllid, personél, apeliadau, yr amgylchedd, cynllunio, digwyddiadau ac efallai polisi. Gellid cyfuno rhai o'r meysydd hyn er hwylustod gweinyddol os oedd digon o gyfatebiaeth rhwng y meysydd gwaith. Gellid sefydlu gweithgorau at ddiben penodol, megis goruchwylio prosiect adeiladu neu drefnu dathliad cymunedol.<br><br>3.2 Mae'r enghreifftiau uchod o Bont-y-pŵl a'r Barri yn cynnwys y rhan fwyaf o'r prif feysydd hyn, ac ambell un arall. | Dylai Cyngor ystyried sefydlu pwyllgorau o'r fath gan y byddant yn ei helpu i reoli ei waith yn effeithiol, a gwneud y defnydd gorau o amser Aelodau a Swyddogion. Bydd cwmpas cyfrifoldebau'r Cyngor a maint y gyllideb yn berthnasol yn y cyd-destun hwn. | Dylid penodi Pwyllgorau ac ati yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Gellir penodi cyrff eraill wrth i waith y Cyngor ddatblygu. | Dylech adolygu pa bwyllgorau ac ati rydych eu hangen yn flynyddol. |
| 3.3 Gall Cyngor drefnu fod unrhyw un o'i swyddogaethau'n cael eu cyflawni gan bwyllgor, is-bwyllgor, neu swyddog. Mae Cynghorau megis Cyngor Tref Y Fenni wedi cynhyrchu Rhestr Dirprwyadau gynhwysfawr.<br><br>3.4 **ON** Er hynny, dylai'r swyddogaethau canlynol gael eu cyflawni gan y Cyngor Llawn yn unig: | | Mae amserlenni pendant ar gyfer penderfyniadau megis y praesept a chymeradwyo cyfrifon. | Gweler Nodyn Datblygu Arfer (1) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| • pennu'r gyllideb derfynol neu'r praesept (Gofyniad Treth y Cyngor).<br>• cymeradwyo datganiadau cyfrifo.<br>• cymeradwyo'r datganiad llywodraethu blynyddol.<br>• benthyca.<br>• dileu hen ddyledion.<br>• datgan cymhwysedd ar gyfer y Grym Cymhwysedd Cyffredinol.<br>• rhoi sylw i argymhellion mewn unrhyw adroddiad gan yr archwilwyr mewnol neu allanol.<br><br>3.5 Gall y Cyngor osod terfynau ar ddirprwyadau eraill, megis terfyn ariannol i grantiau a gyflwynir trwy rymoedd dirprwyedig. | | | |

| Cam | Pwrpas | Amserlen | Amserlen yn gryno |
|---|---|---|---|
| **4. Pa mor aml ddylen nhw gael eu hadolygu?** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 4.1 Dylai'r Cyngor adolygu cylch gorchwyl pwyllgorau ac ati yn flynyddol. Gellid gwneud hyn yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. | Sicrhau bod y cylch gorchwyl yn parhau'n addas a'i fod yn adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn polisi neu ddeddfwriaeth. | Yn flynyddol | Gellid gwneud hyn yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. |
| 4.2 Yna dylid adrodd am y cylch gorchwyl i gyfarfod nesaf y pwyllgor a dylid ei gynnwys yn gynnar ar yr agenda. | Sicrhau bod y pwyllgor yn deall ei rôl yn llawn. | Yn y cyfarfod cyntaf yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. | Yn y cyfarfod cyntaf yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. |
| 4.3 Ar gyfer gweithgorau a chyrff ad hoc eraill, dylid cytuno cylch gorchwyl o'r cychwyn cyntaf. Mae hynny fel arfer yn benderfyniad i'r Cyngor ond gallai gael ei wneud gan y grŵp ei hun gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. | Sicrhau bod y grŵp yn deall ei rôl yn llawn. | Yn y cyfarfod cyntaf. | Yn y cyfarfod cyntaf. |

**Rhai awgrymiadau allweddol:**

- Gofalwch fod cylch gorchwyl ar gael ar gyfer pob pwyllgor, is-bwyllgor, gweithgor ac ati. Dylech eu hadolygu'n rheolaidd.
- Gofalwch fod holl aelodau pwyllgorau yn deall y cylch gorchwyl.
- Os ydych yn creu pwyllgor am y tro cyntaf, cysylltwch ag Un Llais Cymru i gael help gyda model gylchoedd gorchwyl. Edrychwch ar Gynghorau eraill er mwyn dysgu o'u gwaith nhw.
- Mae'n bwysig fod cylch gorchwyl yn cynnig eglurder ar gyfer gwaith y pwyllgor. Er hynny, dylech ystyried gwneud eich cylch gorchwyl yn hyblyg er mwyn gallu ymateb i amgylchiadau yn newid. Efallai y gallech ychwanegu " Unrhyw faterion eraill, sydd, er hwylustod, yn cael eu cyfeirio at y pwyllgor hwn" i greu sefydliad ystwyth.